Menai Owen-Jones

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Amdanaf i

- Gwirfoddolwr ymroddgar, yn angerddol am y sector gwirfoddol ac am greu Cymru decach, gryfach a mwy gwyrdd.
- Profiad bywyd o fod yn rhan o gymuned leiafrifol (LHDTC+), gan weithio i hybu amrywiaeth a chynhwysiant. Wedi fy enwi yn Rhestr Binc 2024 WalesOnline ac wedi ennill Gwobr Gymuned 2023 Hanes Pobl Dduon Cymru.
- Prif Swyddog Gweithredol profiadol, sy'n arwain LATCH: Elusen Canser Plant Cymru ar hyn o bryd. Cyn hyn, yn Brif Swyddog Gweithredol elusen iechyd DU gyfan, The Pituitary Foundation. Enillydd gwobr Cyfarwyddwr y Flwyddyn 2024 Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru (Sector Cyhoeddus a Thrydydd Sector).
- Profiad eang o elusennau, o fudiadau bach effeithiol i enwau mawr adnabyddus. Wedi gweithio ym mhob cwr o Gymru a ledled y DU.
- Cyfarwyddwr Siartredig, ymddiriedolwr profiadol a chynghorydd. Llywodraethwr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Chynghorydd Annibynnol i Senedd Cymru ar hyn o bryd. Cyn hyn, yn un o ymddiriedolwyr Cyngor Hil Cymru, Daring to Dream a Chymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO).
- Wedi fy magu yng ngogledd Cymru ac yn siaradwr Cymraeg rhugl.
- Cefnogwr hirdymor o CGGC ac yn ymddiriedolwr ers 2021.

Os byddaf yn cael fy ail-ethol, byddaf yn parhau i

- Gefnogi a herio CGGC i sicrhau bod lleisiau aelodau ledled Cymru yn cael eu clywed.
- Hyrwyddo cydraddoldebau a gwthio am sector gwirfoddol mwy amrywiol a chynhwysol.
- Cefnogi'r sector i fod yn 'barod am y dyfodol'.
- Bod yn gefnogwr cryf, gan ddylanwadu ar benderfynwyr allweddol i gydnabod gwerth y sector gwirfoddol.